# I'W GOSOD - UNED ADWERTHU AR Y LLAWR GWAELOD (YN AMODOL AR GANIATÂD CYNLLUNIO)

**Uned 1, Canolfan Parry Thomas**
**Pentywyn**
**SA33 4NY**

**Rhent £7,000 y flwyddyn (gwahoddir cynigion)**



- Uned llawr gwaelod pwrpasol (43 metr sgwâr)
- Lleoliad glan môr syfrdanol yn edrych dros y traeth.
- Ger Prosiect Denu Twristiaid Pentywyn
- Ar gael ar unwaith
- Cyfnod prydles o bum mlynedd

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Disgrifiad

**Uned adwerthu llawr gwaelod datblygiad pwrpasol sy'n edrych dros Draeth Pentywyn, un o draethau mwyaf ac eiconig y DU. Mae busnesau eraill yng Nghanolfan Parry Thomas yn cynnwys Cambrian Ice Cream Parlour, Chad 'n' Olly's Beach Hut, Bistro on the Bay a Bwyty Tsieineaidd Lotus.**

**Mae traeth tywodlyd Pentywyn, sy'n 7 milltir o hyd ac sy'n enwog am osod record cyflymder tir, yn lle poblogaidd i bobl ar eu gwyliau ac ymwelwyr dydd fel ei gilydd. Wedi'i leoli tua 15 milltir i'r gorllewin o dref Caerfyrddin a 15 milltir i'r dwyrain o Ddinbych-y-pysgod, mae ar Lwybr Arfordir Cymru ac mae'n cynnal digwyddiadau rhyngwladol blynyddol ar ei draeth eiconig.**

**Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi elwa ar adfywiad gwerth miliynau o bunnoedd gan gynnwys "Caban", llety gwyliau pwrpasol newydd, Amgueddfa Cyflymder Tir newydd, ardal ddigwyddiadau awyr agored, maes chwarae antur â thema a gwell maes parcio, y cyfan ger Canolfan Parry Thomas.**

## Gwasanaethau

**Mae gan y safle ei gyflenwad trydan ei hun. Bydd y tenant a gymer y lle yn gyfrifol am drosglwyddo'r cyflenwad ac am dalu'r biliau.**

## Defnydd a Ganiateir

**Cyflwynwyd cais cynllunio newid defnydd yn ddiweddar i droi uned o'i defnydd presennol (Ystafell Arddangos Gwerthu Ceir) i A1 (Defnydd adwerthu), sef y defnydd terfynol a ffefrir gan y Cyngor ar gyfer yr uned.**

## Gwybodaeth am Brydlesi

- **Ar gael ar unwaith**
- **Defnydd a Ganiateir - Manwerthu**
- **Prydles o bum mlynedd (gellid ystyried tenantiaeth hwy)**
- **Rhent o £5,000 y flwyddyn (anghynhwysol).**
- **Isafswm oriau masnachu 10am i 4pm 6 diwrnod yr wythnos yn ystod tymor prysur (1 Ebrill i 30 Medi), 10am i 4pm ar benwythnosau yn ystod y tymor llai prysur, ac eithrio yn ystod cyfnodau o dywydd garw iawn ac am 10 penwythnos yn ystod y tymor llai prysur.**
- **Atgyweiriadau Landlordiaid: Tu allan a strwythur**
- **Atgyweiriadau Tenant: tu mewn ac addurno**
- **Yswiriant: landlord – adeilad (yn amodol ar godi tâl ar denantiaid), tenant – blaen y siop**

- Tenant i dalu'r holl gostau

## Gwerth Ardrethol

Gwerth ardrethol £3,800 o 1 Ebrill 2026.
Lluosydd 0.568 ar gyfer 2025/2026

Mae rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru yn weithredol ar hyn o bryd. Gellir cael rhagor o wybodaeth gan rates@sirgar.gov.uk Rhif ffôn. 01554 742330

## Sgôr Perfformiad Ynni

Sgôr Perfformiad Ynni: I'W GADARNHAU

## Ystyried y Cynigion

Rydyn ni'n annog ceisiadau gan ystod eang o fusnesau sydd eisoes yn bodoli a rhai nad ydynt eto wedi cael eu sefydlu. Os bydd cynigion tebyg neu gystadleuol yn dod i law, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r rheiny a fydd yn fuddiol i Bentywyn o ran y cyd-destun strategol ehangach gan gynnwys cymysgedd o denantiaid, y defnydd arfaethedig, cynaliadwyedd y busnes, y cynigion o ran masnachu y tu allan i'r tymor a'r oriau agor.

Bydd geirdaon masnachu a bancio yn ofynnol, ac mae'n bosibl y bydd gwarantwr yn ofynnol gan y Cyngor.

## Costau Cyfreithiol

Bydd pob parti'n gyfrifol am ei gostau cyfreithiol ei hun yn sgil y trafodiad hwn.

## I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Chris Richards
Syrfëwr Rheoli Asedau
Cyngor Sir Caerfyrddin

Ffôn 07976 855275

E-bost: cirichards@sirgar.gov.uk

Bydd angen i chi weithredu'n ddwyieithog yn unol â pholisïau'r Cyngor gan gynnwys rhoi arwyddion dwyieithog y tu mewn a'r tu allan i'r eiddo. Mae gwasanaeth cymorth a chyngor ar gael yn ogystal â chyfieithu a phrawf-ddarllen am ddim. I gael gwybodaeth, ewch i https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/ a chliciwch ar 'Y Gymraeg Mewn Busnes'

I gael gwybodaeth a chymorth o ran gweithio'n ddwyieithog, ewch i https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/ a chliciwch ar ' Y Gymraeg Mewn Busnes'.

Bwriedir i'r manylion hyn roi disgrifiad teg o'r eiddo, ond canllaw ydynt yn unig. Ni ellir gwarantu eu cywirdeb a dylech chi fodloni eich hun eu bod yn gywir, drwy eu harchwilio neu fel arall. Mae rheidrwydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin i ystyried pob cynnig a ddaw i law am yr eiddo hwn hyd nes y

## TRAETH



## CANOLFAN PARRY THOMAS



## UNED 1 MEWNOL





## CABAN




## YR AMGUEDDFA CYFLYMDER



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council